BYDDWCH WROL, AC YMDDIRIEDWCH YN JEHOFAH

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i ddeall, a ninnau yn amser y diwedd, fod yn rhaid inni fod yn wrol gan ymddiried yn llwyr yn Jehofah. Gan ddefnyddio esiamplau o'r Beibl ynghyd â rhesymu ar yr Ysgrythurau, sicrhewch nhw y medrwn ni fod yn hyderus y cawn gefnogaeth Duw wrth gyflawni'r aseiniad sydd gennym i bregethu'r newyddion da

UN O NODWEDDION POBL DDUW YDI YMDDIRIED YN WROL YN JEHOFAH (10 mun.)

Mae Gair Duw yn annog ymddiried yn Jehofah ac mae llawer esiampl ynddo inni eu hefelychu (Diar 3:5, 6)

'Roedd Enoch a Noah yn byw yn y byd annuwiol cyn y Dilyw

Cyhoeddai Enoch farnedigaethau Duw yn ddi-ofn (Jwdas 14, 15)

Yn ffyddlon ymgymerodd Noa â gwaith adeiladu enfawr a rhybuddio am y Dilyw (2 Pedr 2:5)

Nid ofnai Moses frenin yr Aifft (Heb 11:27)

Fe ymddiriedai yn Jehofah a chyhoeddi'n ddewr farnedigaethau Duw droeon o flaen Pharo (Ex 5:1-3; 9:13-17; 10:3)

O'u hieuenctid 'roedd Dafydd a Daniel yn gadarn o blaid gwir addoliad

Bendithiodd Jehofah eu safiad dewr yn wyneb bygythiadau a'r hyn a ymddangosai fyddai'n eu llethu nhw (1 Sam 17:4-11, 41-50; Dan 6:6-10, 16-22)

Wnaeth Iesu Grist ddim cilio'n ôl rhag wynebu Satan na'i weithredwyr

Yn wrol, fe ymwrthododd â'r Diafol, ceryddodd y Phariseaid, ac anrhydeddu Jehofah bob amser (Math 4:10; 23:13-15, 33; Marc 10:17, 18; Ioan 7:16-18; *w*03 3/1 11)

MAE JEHOFAH YN RHOI SAIL INNI YMDDIRIED YNDDO YN LLWYR (15 mun.)

Ei greadigaethau a'i Air sy'n sail ein hyder ynddo (Deut 32:4; Salm 19:1, 2; Ioan 17:17)

Trwyddyn' nhw cawn ein helpu i ddeall mai Duw cariad, gwirionedd, a threfn ydi Jehofah (1 Cor 14:33; Tit 1:2; 1Ioan 4:16, 19)

Mae pridwerth ac atgyfodiad Crist yn rhoi sicrwydd fod Jehofah â gofal dros Ei weision ac y bydd yn cofio amdanyn' nhw (Math 20:28; 2Cor 5:14; Heb 6:9, 10; *w*03 3/1 15)

Fe ragfynegodd Gair Duw y byddai brawdoliaeth ryngwladol yn addoli yn ei deml ysbrydol yn y dyddiau diwethaf (Eseia 2:2, 3; *w*02 7/1 15)

Nid oes cymaint o wir Gristnogion erioed o'r blaen wedi cael rhan mewn gwir addoliad (Eseia 60:22; *w*01 2/15 26-7)

Mae'r digonedd o fwyd ysbrydol a'r hyfrydwch calon a ragfynegwyd yn cyferbynu'n llwyr â'r byd a'i ddiffyg ysbrydolrwydd (Eseia 65:13, 14; Math 24:45-47)

Tystiolaeth bellach o gefnogaeth Jehofah ydi'n hymateb Ysgrythurol ni i erledigaeth (Math 5:11, 12; 1 Pedr 4:13, 14)

MAE ANGEN FFYDD A GWROLDEB I WRTHSEFYLL GELYNIAETH Y BYD (12 mun.)

Fe ragfynegodd Iesu y byddem yn cael ein casáu (Math 24:9; *w*03 3/1 8; *w*83 5/1 12-13)

Mynegiant o elyniaeth tuag at Had rhan nefol cyfundrefn Jehofah ydi hyn (Gen 3:15; *w*96 6/1 12-13)

Mae'n hoes ni'n gyfnod pan yw ymosodiadau ar benarglwyddiaeth Jehofah a'i deyrnasu drwy gyfrwng y Deyrnas Feseianaidd yn cyflawni'r gair proffwydol (Salm 2:1, 2; Dat 12:10, 17)

I ddyfalbarhau yn wyneb casineb y byd, mae'n rhaid parhau i ymddiried yn wrol yn Jehofah

Fe ymddiriedodd Iesu yn Nuw a gorchfygu'r byd, ac 'rydym yn coffáu ei farwolaeth yn flynyddol yn Swper yr Arglwydd (Ioan 16:33)

Er ei fod yng ngharchar, fe barhaodd Paul i bregethu'n hy ac annog eraill "i draethu gair Duw yn ddi-ofn" (Phil 1:13, 14, *Cyfieithiad y Brifysgol,* 27-29)

Yn debyg i Iesu a Paul, byddwn yn ddewr gan ymddiried yn gadarn yn y nerth sydd oddi wrth Dduw, nid yn ein nerth ein hunain (2 Cor 1:8-10; *w*03 3/1 11)

Mae hyn yn gofyn am lwyr ddibynnu ar Air Jehofah, gyda hyder fod ei ysbryd gennym, a gwroldeb i barhau i gyhoeddi newyddion da'r Deyrnas (Actau 20:20-24)

'Rydym yn deall nad am wneud drwg y mae gweision Jehofah yn cael eu herlid, ond am arddel penarglwyddiaeth Jehofah ac am fod yn Gristnogion dilys ar wahân i'r byd (Salm 83:18; Math 10:22; 24:9; Ioan 15:18-21; *w*83 5/1 14-16)

NAWR YDI'R AMSER I FOD YN WROL AC YMDDIRIED YN JEHOFAH (8 mun.)

Rhyfel ysbrydol nid un corfforol ydi'n rhyfel ni (2 Cor 10:3-5)

'Dyw gwir Gristnogion ddim yn gwneud niwed i eraill; 'rydym yn cydnabod mai Duw piau dial, nid dyn (Rhuf 12:19)

O'r herwydd, parhawn i fod yn bobl heddychlon ac ymostyngar, yn ufudd i lywodraethau dynol ble bynnag 'rydym yn byw (Rhuf 12:18; Tit 3:1)

Cyn sicred ag yr ymdrechwn i fyw yn dawel a heddychlon, mi fyddwn, yr un mor sicr, yn parhau i bregethu'r newyddion da am Deyrnas Dduw (Marc 13:10; 1 Tim 2:1-4)

Dyma'r amser i brofi'n ffydd a bod yn wrol, heb ofni dyn (Diar 29:25; Luc 12:4, 5)

Gwnawn ein gorau i gael rhan yn y gwaith tystiolaethu byd eang a'i gwblhau (Math 24:14)

A ninnau'n gymdeithas fyd eang o frodyr, gweddïwn am fod yn wrol ac i ymddiried yn Jehofah hyd y diwedd (Heb 10:39)

(Glynwch yn glòs wrth y defnydd sydd wedi'i amlinellu, gan gadw at yr amser sydd wedi'i bennu ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnynt)

© 2003 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania Cedwir Pob Hawl